## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Robert Smith | Adran Etholiadol: | Llwchwr Uchaf |
|---|---|---|---|

### Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais 12 cymhorthfa gyda'r hwyr yn y Neuadd Les, Casllwchwr a chymerais ran mewn 'cymorthfeydd stryd' trwy gydol y gwanwyn.

### Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 10 | / | 12 | 83 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 8 | / | 11 | 73 | % |
| Y cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 6 | / | 6 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 4 | / | 5 | 80 | % |
| CYFFREDINOL | 53 | / | 63 | 84 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

### Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Cynghorydd, Cyngor Tref Llwchwr
Aelod o Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe
Cyfarwyddwr, Pwll Cenedlaethol Cymru, Abertawe
Aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Gŵyl Abertawe
Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Llywodraethwr, Ysgol Gyfun Gŵyr.
Cadeirydd Ymchwiliad Craffu ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Dinas a Sir Abertawe

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Llwyddais i hyrwyddo Cae'r Glôb fel lleoliad addas i goffáu dechrau'r Rhyfel Mawr a dechreuais welliannau i'w gyfleusterau.
Gweithiais gyda swyddogion i fynd i'r afael â'r angen am welliannau i lonydd mynediad yn Llwchwr Uchaf.
Sicrheais waith wynebu ar y palmant yng Nghlôs Westland nad oedd wedi'i wneud ers i'r tai gael eu hadeiladu.
Cynullais gyfarfod arbennig â chynrychiolwyr Tîm Polisi Cynllunio Dinas a Sir Abertawe i drafod yr CDLl gan ei fod yn effeithio ar ardal Llwchwr.
Lobïais swyddogion am yr angen i leihau datblygu ar safleoedd tir glas yn y dyfodol.
Craffais ar yr holl geisiadau cynllunio gan eu bod yn ymwneud â Llwchwr Uchaf, gan fynnu sylw ar y ceisiadau lle roedd angen i gynghorwyr graffu arnynt mewn pwyllgor.
Cefnogais fwy o ddefnydd o ddata demograffig i ragweld y math o lety preswyl y bydd ei angen yn y dyfodol.
Lobïais dros Ardal Gemau Aml-ddefnydd ar gyfer Llwchwr Uchaf.
Comisiynais arolwg parcio mewn sawl rhan o Lwchwr Uchaf.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi gweithio ym maes polisi a dadansoddi addysg ers llawer o flynyddoedd, gan gyflwyno amrywiaeth o wasanaethau i awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a chleientiaid eraill. Mae'r rhain wedi bod mewn meysydd megis diwygio systemau cefnogi ysgolion, datblygu darpariaeth dysgu 14-19 oed, ailfodelu gweithlu, defnyddio staff cefnogi ysgolion, arweinyddiaeth ysgol, diwygio'r cwricwlwm a materion asesu.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Dirprwy Faer Llwchwr ers mis Mai 2014
Diacon, Capel Brynteg, Gorseinon
Aelod o grŵp llywio sy'n archwilio llwybr hanes lleol yn ardal Llwchwr.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 3 Gorffennaf 2014 |